**POLISI GWIRFODDOLI**

**Cyflwyniad**

Mae'r polisi gwirfoddoli hwn yn amlinellu'r egwyddorion a'r ymarfer a ddefnyddiwn i ymwneud â gwirfoddolwyr ac mae'n berthnasol i staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr y sefydliad. Mae'n anelu i greu dealltwriaeth gyffredin ac i egluro rolau a chyfrifoldebau er mwyn sicrhau y cedwir y safonau uchaf wrth reoli gwirfoddolwyr.

**Ymrwymiad**

- Mae Chwarae Cymru'n cydnabod gwirfoddolwyr fel rhan annatod o'r sefydliad.
- Mae Chwarae Cymru'n cydnabod y gall gwirfoddolwyr gyfrannu mewn amrywiol ffyrdd, bod eu cyfraniad yn unigryw, ac y gall fod o fudd i ddefnyddwyr gwasanaethau, staff, y sector chwarae a gwaith chwarae ac i'r gwirfoddolwyr eu hunain.
- Mae Chwarae Cymru'n gwerthfawrogi'r cyfraniad a wneir gan wirfoddolwyr ac mae wedi ymrwymo i weithio mewn ffyrdd sy'n annog, cefnogi a datblygu gwirfoddoli.
- Bydd Chwarae Cymru'n cymryd camau priodol i sicrhau bod staff cyflogedig yn glir ynghylch rôl gwirfoddolwyr. Ni ddefnyddir gwirfoddolwyr i gymryd lle staff cyflogedig.

**Beth yw gwirfoddolwr?**

Mae gwirfoddolwyr yn unigolion sy'n cyflawni gweithgareddau ar ran Chwarae Cymru, yn ddi-dâl ac o'u gwirfodd.

Mae Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru (2015) yn diffinio gwirfoddoli fel gweithgarwch

- sy'n cael ei gyflawni am ddim, o wirfodd
- sy'n cael ei gyflawni er budd i'r cyhoedd/y gymuned
- sydd ddim yn cael ei gyflawni er budd ariannol.

Efallai y bydd gwirfoddolwyr yn cymryd rhan am un tro'n unig, neu ar sail tymor byr neu dymor hwy, rheolaidd. Efallai y byddant:

- yn ymwneud â throsglwyddiad uniongyrchol gwasanaethau Chwarae Cymru
- ar fwrdd rheoli Chwarae Cymru fel ymddiriedolwyr
- yn rhan o ymgysylltu cymunedol i gynyddu ymwybyddiaeth am waith Chwarae Cymru
- yn cymryd rhan mewn digwyddiadau un tro a gweithgareddau hyrwyddol
- yn gwirfoddoli yn swyddfeydd Chwarae Cymru neu mewn canolfannau cymunedol.

Gwerthfawrogir gwirfoddolwyr am:

- gynnig sgiliau a safbwyntiau newydd, ychwanegol ac amrywiol i Chwarae Cymru
- ein galluogi i fod yn fwy ymatebol a hyblyg yn ymagwedd Chwarae Cymru
- cenhadu dros achos Chwarae Cymru yn y gymuned yn gyffredinol
- cyfoethogi ansawdd gwaith Chwarae Cymru.

**Datganiad o werthoedd ac egwyddorion**

Mae Chwarae Cymru:

- yn cydnabod y rôl bwysig a gyflawnir gan wirfoddolwyr yng ngwaith Chwarae Cymru, ac mae'n gwerthfawrogi'r cyfraniad y maent yn ei wneud
- yn gwerthfawrogi bod gwirfoddoli'n bleserus ac y gall newid a chyfoethogi bywydau unigolion
- yn cydnabod y cyfraniad unigryw a wneir gan wirfoddolwyr i fywydau defnyddwyr gwasanaethau, cymdeithas, staff cyflogedig a'r gwirfoddolwyr eu hunain
- yn ceisio defnyddio sgiliau, gwybodaeth a phrofiad gwirfoddolwyr mewn modd fydd yn ateb anghenion y gwirfoddolwr a Chwarae Cymru
- yn gwahaniaethu rhwng gwirfoddoli a chyflogaeth ac mae'n gwneud y defnydd gorau o'i hyblygrwydd a'i natur anffurfiol er mwyn cyfannu gwaith staff cyflogedig.

**Cyfrifoldebau**

- Bydd gan bob gwirfoddolwr aelod penodedig o staff i gynnig arweiniad a chyngor i helpu'r gwirfoddolwr gwblhau eu tasgau'n effeithlon. Hysbysir gwirfoddolwyr ynghylch pwy i gysylltu â nhw am gefnogaeth a goruchwyliaeth reolaidd.
- Bydd person enwebedig y gwirfoddolwr a/neu'r Rheolwr Gweithrediadau ar gael o ddydd-i-ddydd er mwyn helpu gydag unrhyw fater sy'n ymwneud â gwaith gwirfoddol.

**Recriwtio a dethol**

- Mae Chwarae Cymru wedi ymrwymo i gyfleoedd cyfartal ac yn credu y dylai gwirfoddoli fod yn agored i bawb waeth, er enghraifft, beth fo'u: oed, rhywedd, ethnigrwydd, gallu, crefydd, a'u cred wleidyddol, ymysg eraill.
- Bydd Chwarae Cymru'n gweithredu system deg ac agored wrth recriwtio a dethol gwirfoddolwyr a bydd yn trin pob gwybodaeth a gesglir yn ystod y broses yn gwbl gyfrinachol.
- Hysbysebir cyfleoedd gwirfoddoli'n eang mewn mannau priodol sy'n hygyrch i bob gwirfoddolwr posibl.
- Caiff gwirfoddolwyr eu dethol ar sail eu haddasrwydd ar gyfer y tasgau gwirfoddoli penodol, gan gydweddu eu sgiliau, eu doniau a'u diddordebau gydag anghenion Chwarae Cymru.
- Pan fydd darpar-wirfoddolwyr yn cysylltu gyda Chwarae Cymru yn chwilio am gyfle i wirfoddoli, gofynnir iddynt am CV. Os dynodir rôl addas, bydd aelod penodedig o'r tîm yn dechrau'r broses benodi a amlinellir isod.

- Gofynnir i bob gwirfoddolwr ddarparu dau eirda, ac os ydynt yn debygol o gael cyswllt uniongyrchol gyda phlant neu oedolion bregus fel rhan o'u rôl, bydd gofyn iddynt dderbyn gwiriad sylfaenol Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Fe'u gwahoddir hefyd i fynychu cyfweliad anffurfiol.
- Bydd gwirfoddolwyr yn derbyn disgrifiad o'r dasg. Caiff y rhain eu paratoi mewn cydweithrediad â'r person sy'n rheolwr llinell y gwirfoddolwr a'r Rheolwr Gweithrediadau.
- Wedi penodiad i rôl gwirfoddolwr, datblygir/darperir Cytundeb Gwirfoddolwr i'w arwyddo rhwng Chwarae Cymru a'r gwirfoddolwr sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau.
- Bydd gwirfoddolwyr gaiff eu hystyried yn anaddas ar gyfer tasg benodol un ai'n cael cynnig gwaith gwirfoddol gwahanol gyda Chwarae Cymru neu'n cael eu cyfeirio at eu canolfan wirfoddoli agosaf.

**Hyfforddiant a datblygiad personol**

- Bydd pob gwirfoddolwr newydd yn cael eu croesawu i Chwarae Cymru a dylent dderbyn cyfnod ymsefydlu gan ddefnyddio rhestr wirio proses ymsefydlu Chwarae Cymru.
- Bydd Chwarae Cymru'n gyfrifol am sicrhau bod y gwirfoddolwr wedi ei baratoi'n gywir ar gyfer y gwaith a bod trefniadau ar gyfer cymorth a hyfforddiant yn eu lle sy'n gymesur â'r tasgau penodol sydd i'w cyflawni.
- Trefnir hyfforddiant ar 'reoli gwirfoddolwyr' ar gyfer y rheini sy'n gyfrifol am waith gwirfoddolwyr.

**Cymorth a goruchwyliaeth**

- Bydd gwirfoddolwyr yn cael mynediad i gymorth a goruchwyliaeth yn rheolaidd. Bydd hyn yn galluogi'r gwirfoddolwr a'r goruchwylydd i ddynodi, monitro a gwerthuso'r gwaith, cydnabod cyrhaeddiad, a dynodi anghenion hyfforddiant unigol.
- Yn ogystal, gwahoddir gwirfoddolwyr i fynychu cyfarfodydd tîm ble gallant fynegi eu sylwadau a'u barn.

**Treuliau**

Rhoddir gwybodaeth eglur i wirfoddolwyr ynghylch pa dreuliau y gellir eu hawlio a sut i wneud cais.

**Datrys anghydweld**

Mae Chwarae Cymru'n anelu i drin pob gwirfoddolwr yn deg. Bydd yr aelod o staff sy'n gyfrifol am reoli gwirfoddolwr yn gyfrifol am ddelio gyda phroblemau wrth iddynt godi. Y Rheolwr Gweithrediadau fydd yn gyfrifol am ddelio ag anawsterau sy'n ymwneud ag ymddygiad y gwirfoddolwr neu achwynion. Hysbysir gwirfoddolwyr am Bolisi Cwynion y sefydliad.

**Hawliau a chyfrifoldebau gwirfoddolwyr**

Gall gwirfoddolwyr ddisgwyl i:

- gael gwybod beth a ddisgwylir ohonynt
- cael ffynonellau cefnogaeth a goruchwyliaeth penodol, eglur
- cael eu gwerthfawrogi
- gwirfoddoli mewn amgylchedd diogel
- cael eu hyswirio
- derbyn ad-daliad am gostau cytûn (ni ddylai unrhyw wirfoddolwr fod ar eu colled o ganlyniad i wirfoddoli gyda Chwarae Cymru)
- derbyn hyfforddiant priodol
- bod yn rhydd rhag gwahaniaethu
- derbyn cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol.

Mae Chwarae Cymru'n disgwyl i wirfoddolwyr:

- fod yn ddibynadwy a gonest
- i barchu cyfrinachedd
- i wneud y gorau o gyfleoedd hyfforddiant a chefnogaeth
- i gynnal gwerthoedd y sefydliad a chydymffurfio gyda pholisïau'r sefydliad:
  - Polisi Iechyd a Diogelwch
  - Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
  - Polisi Diogelu Data
- i gyflawni tasgau o fewn canllawiau cytûn ac mewn modd sy'n adlewyrchu nodau'r sefydliad.

Gofynnir i bob gwirfoddolwr ddarllen Polisi Diogelu Data Chwarae Cymru ac i arwyddo i ddweud eu bod wedi gwneud hynny, a'u bod yn deall ei gynnwys.

**Fersiwn polisi**
Adolygwyd y polisi hwn ym mis Mawrth 2025